

COLEG GŴYR ABERTAWE

COD YMDDYGIAD AELODAU BWRDD Y GORFFORAETH

1. Cyflwyniad

1.1.1 Bwriedir i'r Cod hwn fod yn ganllaw i Lywodraethwyr, er mwyn dangos y safonau ymddygiad a ddisgwylir ganddynt, i'w galluogi i ddeall eu dyletswyddau cyfreithiol a'u cynorthwyo o ran ymgymryd â'u dyletswyddau ac yn eu perthynas â'r Coleg a'r Pennaeth. Mae'r Cod hwn felly yn ceisio hyrwyddo llywodraethiant effeithiol a gwybodus yn y coleg, ac ni fwriedir iddo fod yn ddatganiad diffiniol neu awdurdodol o'r gyfraith.

Dylai'r Cod adlewyrchu'r egwyddorion a osodwyd gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (Pwyllgor Nolan) ar gyfer y rhai mewn swyddi cyhoeddus sef:

- **Anhunanoldeb:** 'Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu er budd y cyhoedd yn unig. Ni ddylent wneud hynny er mwyn cael budd ariannol neu fudd materol arall ar gyfer nhw eu hunain, eu teuluoedd na'u cyfeillion.'
- **Uniondeb:** 'Wrth ymgymryd â busnes cyhoeddus ni ddylent roi eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall i unigolion neu sefydliadau allanol a allai ddylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau swyddogol.'
- **Gwrthrychedd:** 'Wrth ymgymryd â busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau, neu argymhell unigolion ar gyfer gwobrwyon neu fuddion, dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud dewisiadau ar sail haeddiant.'
- **Atebolrwydd:** 'Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd i'r cyhoedd a rhaid iddynt dderbyn unrhyw graffu a fo'n briodol i'w swyddi.'
- **Bod yn agored:** 'Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod mor agored ag y bo modd ynglŷn â'r holl benderfyniadau a chymau gweithredu a gymerant. Dylent roi rhesymau am eu penderfyniadau ac ni ddylent gyfyngu ar wybodaeth ac eithrio pan fo'n amlwg bod hynny er budd y cyhoedd.'
- **Gonestrwydd:** 'Mae dyletswydd ar ddeiliaid swyddi cyhoeddus i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat yn ymwneud â'u dyletswyddau

cyhoeddus a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro sy'n codi mewn ffordd sy'n diogelu budd y cyhoedd.'

- **Arweinyddiaeth**: 'Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn trwy arweiniad ac esiampl.'

1.2 Yn ogystal â'r Cod hwn, argymhellir bod y Llywodraethwyr yn ymgysylltu â'r canlynol:

- Mae Rheoliadau Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Gŵyr Abertawe (Llywodraethu) 2010 (*a elwir yn Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu*);
- Y Memorandwm Ariannol rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch sy'n darparu addysg bellach yng Nghymru (*a gyhoeddwyd gan yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar 1 Ionawr 2007*);
- Y Canllaw i Lywodraethwyr Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru (*a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru ym Mehefin 2000*);
- Cynllun Strategol y Coleg; a
- Pholisïau eraill lle mae gan lywodraethwyr rôl i'w chwarae:
 - * Polisi Gwrthlwgrwobrwyo
 - * Polisi Chwythu'r Chwiban
 - * Polisi Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed.

Mae Atodiadau 1 a 2 ynghlwm wrth y Cod hwn er hwylustod. Ni ddylid eu darllen fel datganiad cyflawn o ddyletswyddau, pwerau neu ddarpariaethau a dylai aelodau gyfeirio at y dogfennau gwreiddiol a restrir uchod. Os yw Aelod mewn amheuaeth ynghylch darpariaethau unrhyw un o'r dogfennau hyn, dylai ymgynghori â'r Clerc ac, os bydd angen, dylai gael cyngor cyfreithiol. Fodd bynnag, yn y pen draw, fel Aelod Bwrdd y Gorfforaeth, yr Aelod unigol sy'n gyfrifol am briodoldeb ymddygiad ac am unrhyw weithred neu anweithred yn rhinwedd y swydd.

1.3 Mae'r Cod hwn yn berthnasol i bob pwyllgor, gweithgor neu is-gorff y Coleg lle gall aelodau gael eu penodi.

1.4 Bydd derbyn penodiad fel Llywodraethwr yn golygu eich bod yn derbyn y Cod hwn.

2. Dehongliad

- 2.1 Yn y Cod hwn mae “Coleg” yn golygu Coleg Gŵyr Abertawe, ac mae “Aelod”, “Cadeirydd”, “Pennaeth” a “Clerc” yn golygu Aelod, Cadeirydd, Pennaeth a Chlerc presennol y Gorfforaeth.
- 2.2 Mae gan yr holl ddiffiniadau eraill yr un ystyron â'r rhai a nodir yn Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu'r Coleg. Bydd geiriau sy'n cyfleu un rhyw yn cynnwys y ddau ryw.

3. Dyletswyddau

- 3.1 Mae gan Aelodau ddyletswydd ymddiriedol i'r Coleg. Golyga hyn y dylent ddangos teyrngarwch mawr iddo a gweithredu gyda phob ewyllys da o ran ei fuddiannau. Dylai pob Aelod weithredu'n onest ac yn ddiwyd ac, yn amodol ar y darpariaethau ym mharagraff 7 o'r cod hwn yn ymwneud â chydgyfrifoldeb, yn annibynnol.
- 3.2 Beth bynnag fydd penderfyniadau'r Aelodau yng nghyfarfodydd Bwrdd y Gorfforaeth a'i phwyllgorau, rhaid iddynt fod er lles y Coleg yn gyffredinol ac nid ar gyfer unrhyw ddiben amhriodol, neu gymhelliad personol. Yn bennaf gall “lles y Coleg” olygu lles ei fyfyrwyr a defnyddwyr eraill gwasanaethau'r Coleg, a diogelu arian cyhoeddus. Dylai Aelodau ystyried y buddiannau hynny, ac ni ddylent ganiatáu i unrhyw fuddiant adrannol gael blaenoriaeth. Yn arbennig, ni phenodir Aelodau yn ‘gynrychiolwyr’ na ‘dirprwyon’ unrhyw gorff allanol, ac efallai na fyddant wedi'u rhwymo'n gyfreithlon gan fandadau a roddir gan bobl eraill.
- 3.3 Rhaid i Aelodau barchu darpariaethau Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu'r Coleg yn arbennig y cyfrifoldebau a roddwyd i'r Gorfforaeth gan Erthygl 3(1) yn Erthyglau Llywodraethu'r Coleg.
- 3.4 Dylai Aelodau ystyried hefyd y cyfrifoldebau gwahanol, ond ategol, a roddwyd i'r Pennaeth fel Prif Weithredwr y Coleg. Er mai swyddogaeth y Gorfforaeth yw penderfynu ar bolisiâu strategol, cyfeiriad cyffredinol a monitro perfformiad y Pennaeth ac unrhyw ddeiliad swyddi uwch eraill, rôl y Pennaeth yw gweithredu penderfyniadau'r Gorfforaeth a rheoli materion y Coleg o fewn y cyllidebau a'r fframwaith a bennwyd gan y Gorfforaeth. Dylai Aelodau gydweithio fel bod y Gorfforaeth a'r Pennaeth yn perfformio eu rolau priodol yn effeithiol.
- 3.5 Mae Aelodau yn gydgyfrifol am barchu'r dyletswyddau a nodwyd yn y Memorandwm Ariannol y mae'r Coleg wedi ymrwymo iddo gyda'r Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau / Llywodraeth Cymru fel amod o gael arian cyhoeddus.

- 3.6 Er mai Llywodraeth Cymru yw'r prif ddarparwr arian i'r Coleg, dylai Aelodau nodi mai nhw sy'n gyfrifol hefyd am y defnydd priodol o incwm o ffynonellau eraill, fel yr Undeb Ewropeaidd.

4. Sgiliau, Gofal a Diwydrwydd

- 4.1 Dylai Aelod, yn ei holl waith ar gyfer y Coleg, ddefnyddio'r sgiliau sydd ganddo a dangos gofal a diwydrwydd a fyddai'n ddisgwyliedig gan rywun rhesymol yn yr amgylchiadau. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol wrth i Aelodau weithredu fel asiantau'r Coleg, er enghraifft, pan fydd swyddogaethau'n cael eu dirprwyo i un o bwyllgorau Bwrdd y Gorfforaeth neu'r Cadeirydd. Dylai Aelodau fod yn ofalus i weithredu o fewn cylch gorchwyl unrhyw bwyllgorau y maent yn eu gwasanaethu.

5. Pwerau

- 5.1 Mae Aelodau'n gyfrifol am wneud penderfyniadau sydd o fewn y pwerau a roddwyd i'r Gorfforaeth gan Adrannau 18 a 19 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Nodir crynodeb o'r pwerau hynny yn Atodiad 2. Os bydd Aelod yn meddwl bod y Gorfforaeth yn debygol o fynd y tu hwnt i'w bwerau drwy wneud penderfyniad arbennig, dylai gyfeirio'r mater yn syth i'r Clerc am gyngor.

6. Gwrthdaro buddiannau

- 6.1 Fel pobl eraill sydd â dyletswydd ymddiriedol, dylai Aelodau geisio osgoi rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle mae gwrthdaro (gwirioneddol neu bosibl) rhwng eu buddiannau personol a'u dyletswyddau i'r Gorfforaeth. Ni ddylent ganiatáu i unrhyw wrthdaro buddiannau godi a allai amharu ar eu barn annibynnol.
- 6.2 Atgoffir Aelodau, o dan gymal 10 o Offeryn Llywodraethu'r Coleg, na ddylent gael budd o unrhyw eiddo a gedwir neu a ddefnyddir at ddibenion y Coleg heb gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan Weinidogion Cymru.
- 6.3 Atgoffir Aelodau hefyd, o dan gymal 10(2) (a) o Offeryn Llywodraethu'r Coleg, bod rhaid iddynt ddatgelu i'r Gorfforaeth unrhyw fuddiant ariannol sydd ganddynt, neu a allai fod ganddynt, o'r canlynol:
- Cyflenwi gwaith i'r Coleg neu nwyddau at ddibenion y Coleg;
 - Unrhyw gontract neu gontract arfaethedig yn ymwneud â'r Coleg; neu
 - Unrhyw fater arall sy'n berthnasol i'r Coleg.
- 6.4 Fodd bynnag, nid oes rhaid i'r buddiant fod yn un ariannol at ddibenion datgelu. Os yw'n hysbys yn gyhoeddus, os yw'n debygol neu y byddai'n debygol i amharu ar farn annibynnol Aelod, dylai'r buddiant, ariannol neu fel arall:
- Gael ei adrodd i'r Clerc; a

- Chael ei ddatgelu'n llawn i'r Gorfforaeth cyn ystyried y mater yn ymwneud â'r buddiant.

Dylai Aelodau ymneilltuo o'r rhan honno o'r cyfarfod sy'n ystyried y mater yn ymwneud â'r buddiant, ac ni ddylai ar unrhyw gyfrif bleidleisio mewn perthynas â'r mater.

- 6.5 Ni ddylai Aelodau dderbyn rhoddion, lletygarwch na buddion o unrhyw fath gan drydydd parti a allai fod yn groes i Ddeddf Llwgwrwobrwyo 2012 neu a allai gael ei weld yn effeithio ar eu barn bersonol neu eu huniondeb. Dylid adrodd unrhyw gynnig rhodd, lletygarwch neu fudd o'r fath i'r Clerc ar unwaith.
- 6.6 O dan gymal 17 o Offeryn Llywodraethu'r Coleg ni ddylai Aelodau dderbyn unrhyw gyflog am eu gwasanaethau fel Aelodau.
- 6.7 Bydd y Clerc yn cadw Cofrestr o Fuddiannau Aelodau fydd yn agored i'r cyhoedd ei gweld. Gwahoddir Aelodau i ddatgelu i'r Gorfforaeth fel rhan o'r drefn pob buddiant busnes, ariannol neu fel arall, sydd ganddynt (hyd y gwyddant) neu sydd gan eu gŵr neu wraig neu bartner, eu plant neu unrhyw berthnasau agos eraill. Bydd y Clerc yn nodi'r rhain yn y Gofrestr. Dylai Aelodai roi gwybod i'r Clerc pan fydd eu hamgylchiadau'n newid a phan fyddant yn ennill neu'n colli buddiannau.

7. Cydgyfrifoldeb

- 7.1 Mae'r Gorfforaeth yn cael ei gweithredu gan yr Aelodau sy'n cymryd penderfyniadau mwyafrif mewn cyfarfodydd â chworwm. Felly, mae penderfyniad y Gorfforaeth, hyd yn oed pan nad yw'n unfrydol, yn benderfyniad a gymerir gan yr aelodau gyda'i gilydd. Mae gan bob aelod unigol ddyletswydd i gefnogi'r penderfyniad p'un ai oedd yn bresennol neu beidio yng nghyfarfod y Gorfforaeth pan gafodd y penderfyniad ei wneud.
- 7.2 Os bydd Aelod yn anghytuno â phenderfyniad a wnaed gan y Gorfforaeth, ei (d)dyletswydd gyntaf yw trafod a chofnodi unrhyw anghydfod. Os bydd aelod yn anghytuno'n gryf, dylai ymgynghori â'r Cadeirydd ac, os bydd angen, codi'r mater gyda'r Gorfforaeth yn y cyfarfod nesaf. Os nad oes cyfarfod wedi'i drefnu, dylai'r Aelod gyfeirio at gymal 11(4) o Offeryn Llywodraethu'r Coleg yn ymwneud â'r pŵer i drefnu cyfarfod arbennig ac, os yw'n briodol, gofyn i'r Clerc ddosbarthu barn yr Aelodau o flaen llaw i'r Aelodau eraill. Neu, efallai y bydd yr Aelod yn penderfynu ymddiswyddo, ar ôl ymgynghori â'r Cadeirydd.

8. Cyfrinachedd

- 8.1 Oherwydd atebolrwydd cyhoeddus y Gorfforaeth, dylai Aelodau sicrhau, fel egwyddor gyffredinol, bod gan fyfyrwyr a staff y Coleg fynediad am ddim i wybodaeth am drafodion y Gorfforaeth. Yn unol â hynny, mae agendâu, cofnodion a phapurau eraill yn ymwneud â chyfarfodydd y Gorfforaeth fel

rheol ar gael i'r cyhoedd eu gweld ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo i'w cyhoeddi gan y Cadeirydd.

- 8.2 Bydd achlysuron pan na fydd cofnod o drafodaethau a phenderfyniadau ar gael i'r cyhoedd ei weld, er enghraifft, pan fydd y Gorfforaeth yn ystyried materion sensitif neu unigolyn a enwyd ac am resymau da eraill. Bydd y Clerc yn cadw'r fath eitemau wedi'u gwahardd mewn ffolder gyfrinachol, a bydd yn cael eu dosbarthu yn gyfrinachol i Aelodau. Fodd bynnag, efallai na fydd gan staff a myfyrwyr-aelodau fynediad i gofnodion sy'n ymdrin â materion sy'n gofyn iddynt ymneilltuo o gyfarfodydd o dan gymalau 13(5), (7) neu (8) o Offeryn Llywodraethu'r Coleg.
- 8.3 Mae'n bwysig bod y Gorfforaeth a'i phwyllgorau'n cael trafodaethau llawn ac agored er mwyn gwneud penderfyniadau ar y cyd. Er mwyn gwneud hyn, rhaid bod ymddiriedaeth rhwng Aelodau gyda chydgyfrifoldeb corfforaethol am benderfyniadau. Dylai Aelodau gadw'n gyfrinachol unrhyw fater, oherwydd ei natur, y mae'r Cadeirydd neu'r Aelodau neu Gadeirydd neu aelodau unrhyw bwyllgor y Gorfforaeth yn fodlon y dylid ymdrin ag ef yn gyfrinachol.
- 8.4 Ni ddylai Aelodau wneud datganiadau i'r wasg neu'r cyfryngau neu mewn unrhyw gyfarfod cyhoeddus yn ymwneud â thrafodion y Gorfforaeth neu ei phwyllgorau heb gael cymeradwyaeth y Cadeirydd neu yn ei absenoldeb, yr Is-gadeirydd. Mae'n anfoesol i Aelodau feirniadu barn neu ddatgelu barn Aelodau eraill a fynegwyd yng nghyfarfodydd y Gorfforaeth neu ei phwyllgorau.

9. Presenoldeb mewn cyfarfodydd

- 9.1 Disgwylir lefel uchel o bresenoldeb yng nghyfarfodydd y Gorfforaeth fel y gall Aelodau berfformio eu swyddogaethau yn iawn. Mae'r Clerc yn cadw cofnod o bresenoldeb Aelodau ym mhob cyfarfod y Gorfforaeth a phob cyfarfod pwyllgor a chaiff presenoldeb ac ymddiheuriadau eu cofnodi yn y cofnodion. Bydd y Pwyllgor Chwilio yn adolygu cofnod cyfansawdd o'r holl bresenoldeb yn flynyddol. Caiff y pwyllgor ofyn i Gadeirydd y Gorfforaeth ymyrryd os yw'r amgylchiadau'n awgrymu bod y camau gweithredu hyn yn briodol.

10. Datblygu Llywodraethu

- 10.1 Anogir Aelodau i drwytho yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau drwy gymryd rhan yn rhaglen sefydlu llywodraethu'r Coleg a rhaglenni hyfforddi, gan gynnwys gweithdai gloywi rheolaidd.
- 10.2 Er mwyn hyrwyddo llywodraethu mwy effeithiol, bydd aelodau'n cynnal adolygiad blynyddol o berfformiad y Gorfforaeth yn ei dyletswyddau a'i chyfrifoldebau, fel rhan o broses hunanwerthuso barhaus.

Cadarnhawyd gan Fwrdd y Gorfforaeth 16 Rhagfyr 2013.

CRYNODEB O GYFRIFOLDEBAU'R GORFFORAETH (TYNNWYD O'R ERTHYGLAU LLYWODRAETHU

ATODIAD 1

3.-(1) Y Gorfforaeth sy'n gyfrifol am—

(a) penderfynu cymeriad addysgol a chenhadaeth y sefydliad a goruchwylio ei weithgareddau;

(b) defnyddio adnoddau yn effeithiol ac yn effeithlon, solfedd y sefydliad a'r Gorfforaeth a diogelu eu hasedau;

(c) cymeradwyo amcangyfrifon blynyddol incwm a gwariant;

(ch) penodi, graddio, arfarnu, atal dros dro a phenderfynu cyflog ac amodau gwaith deiliaid swyddi uwch a'r Clerc (gan gynnwys, pan fo'r Clerc wedi'i benodi, neu i'w benodi, fel aelod o'r staff, penodiad y Clerc, ei radd, ei atal dros dro a dull penderfynu ei gyflog yn rhinwedd ei swyddogaeth fel aelod o'r staff);

(d) diswyddo deiliaid swyddi uwch a'r Clerc (gan gynnwys, pan fo'r Clerc wedi'i benodi, neu i'w benodi, fel aelod o'r staff, diswyddo'r Clerc yn rhinwedd ei swyddogaeth fel aelod o'r staff);

(dd) pennu fframwaith ar gyfer cyflog ac amodau gwaith yr holl staff eraill; ac

(e) os nad oes yna Fwrdd Academiaidd, sicrhau bod trefniadau yn eu lle i gynghori'r Pennaeth ar—

(i) safonau gwaith academiaidd y sefydliad a chynllunio, cyd-drefnu, datblygu a goruchwylio'r gwaith hwnnw;

(ii) trefniadau i dderbyn, asesu ac arholi myfyrwyr; a

(iii) y gweithdrefnau ar gyfer diarddel myfyrwyr am resymau academiaidd.

Dirprwyo

6.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), caiff y Gorfforaeth ddirprwyo pwerau—

(a) i unrhyw bwyllgor a sefydlir o dan erthygl 5;

(b) i'r Cadeirydd neu, yn absenoldeb y Cadeirydd, i'r Is-gadeirydd; neu

(c) i'r Pennaeth.

(2) Rhaid i'r Gorfforaeth beidio â dirprwyo'r canlynol—

(a) penderfynu ar gymeriad addysgol a chenhadaeth y sefydliad;

(b) cymeradwyo amcangyfrifon blynyddol incwm a gwariant;

(c) y cyfrifoldeb dros sicrhau solfedd y sefydliad a'r Gorfforaeth a diogelu eu hasedau;

(ch) penodi person i swydd uwch;

(d) penodi'r Clerc fel aelod o'r staff gan gynnwys, pan fo'r Clerc wedi'i benodi, neu i gael ei benodi yn aelod o'r staff, benodiad y Clerc yn swyddogaeth aelod o'r staff; neu

(dd) gwneud erthyglau llywodraethu newydd yn lle'r Erthyglau hyn neu addasu'r Erthyglau hyn o dan adran 22(4) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(1).

(3) Caiff y Pennaeth, gyda chymeradwyaeth ysgrifenedig y Gorfforaeth ymlaen llaw, ddirprwyo unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Pennaeth i aelodau eraill o staff, ac eithrio rheoli'r gyllideb.

(4) Caiff y Bwrdd Academaidd ddirprwyo pwerau i unrhyw bwyllgor a sefydlir o dan erthygl 4(8).

CRYNODEB O BWERAU'R GORFFORAETH**Prif Bwerau**

1. O dan Adran 18 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, fel y diwygiwyd, gall corfforaeth addysg bellach:
 - ddarparu addysg bellach ac uwch; a
 - chyflenwi nwyddau neu wasanaeth mewn cysylltiad â'i darpariaeth addysg.
2. Gelwir y pwerau hyn yn "brif bwerau" y Gorfforaeth.

Pwerau Atodol

3. O dan Adran 19 o Ddeddf 1992 gall corfforaeth addysg bellach wneud unrhyw beth yr ymddengys iddo ei fod yn angenrheidiol neu'n hwylus at ddiben neu mewn cysylltiad â gweithredu unrhyw un o'r prif bwerau a roddwyd gan Adran 18 o'r Ddeddf, gan gynnwys y canlynol yn arbennig:
 - y pŵer i gaffael a chael gwared ar dir ac eiddo arall;
 - y pŵer i ymrwymo i gontractau, gan gynnwys y canlynol yn arbennig:
 - * contractau ar gyfer cyflogi athrawon a staff eraill at ddibenion neu mewn cysylltiad ag unrhyw weithgareddau a wneir wrth weithredu eu prif bwerau; a
 - * chontractau o ran cyflawni unrhyw weithgareddau o'r fath gan y Gorfforaeth;
 - y pŵer i fenthycu symiau y tybia'r Gorfforaeth eu bod yn bwrpasol ar gyfer cyflawni unrhyw weithgareddau y mae ganddi'r pŵer i'w cyflawni neu ddiwallu unrhyw atebolrwydd a drosglwyddir iddo o dan Adrannau 23-27 o Ddeddf 1993 (h.y. pan gafodd y Coleg ei annibyniaeth gorfforaethol ar 1 Ebrill 1993) ac, mewn cysylltiad â benthyca o'r fath, y pŵer i gytuno ar unrhyw dâl morgais neu nawdd arall o ran unrhyw dir neu eiddo arall y Gorfforaeth. Ni chaiff y pŵer hwn ei weithredu heb ganiatâd Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant, a allai roi ei ganiatâd ar gyfer benthyca penodol neu fenthycu o fath arbennig;
 - y pŵer i fuddsoddi unrhyw symiau nad oes eu hangen yn syth at ddibenion cyflawni unrhyw weithgareddau y mae ganddi'r pŵer i'w cyflawni;
 - y pŵer i dderbyn rhoddion o arian, tir neu eiddo arall a'u defnyddio, neu eu cadw a'u gweinyddu ar ymddiriedaeth at unrhyw un o'r dibenion hynny; a'r
 - pŵer i wneud unrhyw beth cydnaws ag ymddygiad sefydliad addysgol sy'n darparu addysg bellach neu uwch, gan gynnwys sefydlu ysgoloriaethau neu arddangosfeydd, creu grantiau a rhoi gwobrwyon.

4. Gall y Gorfforaeth hefyd ddarparu cyfleusterau o unrhyw ddisgrifiad (gan gynnwys llety preswyl a chyfleusterau hamdden ar gyfer myfyrwyr a staff a chyfleusterau i ateb anghenion myfyrwyr sydd ag anawsterau dysgu) yr ymddengys eu bod yn angenrheidiol neu'n ddymunol at ddibenion neu mewn cysylltiad â gweithredu'r prif bwerau.
5. Gelwir y pwerau a roddir drwy Adran 19 o'r Ddeddf yn "bwerau atodol".